Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Mai 2014

# Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Addysg Uwch (Cymru)

1. Ar 19 Mai 2014, cafodd Bil Llywodraeth, 'Bil Addysg Uwch (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.

2. Ar 29 Ebrill 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

3. Ar 13 Mai 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 3 Hydref 2014.

4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 28 Tachwedd 2014, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.